

PARRY, JAMES RHYS ('Eos Eyas,' h.y. ' Eos Ewyas '; fl. 1570?-1625?), bardd a droes rai o'r salmau ar gân yn Gymraeg

**Enw:** James Rhys Parry  
**Ffugenw:** Eos Eyas, Eos Ewyas  
**Plentyn:** George Parry  
**Rhiant:** Rhys Parry  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd a droes rai o'r salmau ar gân yn Gymraeg  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth  
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ni wyddys mo flwyddyn ei eni nac amser ei farw, eithr gellir barnu ei fod yn aelod o ryw gangen o deulu Parry, Poston, sir Henffordd, a Llandefaelog-tre'r-graig, sir Frycheiniog - gweler ach y teulu arbennig hwn yn [Jones, Brecknockshire, a Llyfr Baglan](#), 37. Os felly, bu James yn briod deirgwaith; ac y mae'n fwy na thebyg mai'r drydedd wraig oedd mam ei fab [George Parry](#). Pan aeth y mab hwn i Rydychen (17 Ionawr 1633/4) fe'i disgrifir ef yn fab James Parry, ' Michael Church, Herefordshire.' Ceir 'cywyddau' ac 'englynion' gan James Parry (ac, efallai, gan ei dad Rhys Parry) yn [Llanstephan MS 50](#). Eithr fe'i coffeir yn bennaf oherwydd iddo, fel [Edmwnd Prys](#) ac eraill gynnig troi'r salmau Cymraeg ar gân. Ceir ei fersiwn ef mewn tair llawysgrif - B.M. Add. MS. 14895 a dwy yn y Llyfrgell Genedlaethol, sef Cwrtmawr MS. 28 a Pen. MS. 220. Ceir manylion am gysylltiad Parry â'r [esgob William Morgan](#) ac â'r [archddiacon Edmwnd Prys](#) mewn fersiwn arall o'r salmau ar gân, sef fersiwn [George Parry](#), mab James Parry - (yn N.L.W. MS. 641). Yno dywed y mab fod y tad o deulu da yn Ewyas Lacy yn Swydd Henffordd (yng Nghymru hyd 1543), yn noddwr beirdd, ac yn fardd ei hunan, ac iddo roddi ei fersiwn i [William Morgan](#) pan oedd yn esgob Llandaf ac y bu i hyn symbylu [Edmwnd Prys](#) i wneud gwaith cyffelyb - i [Prys](#) ddefnyddio fersiwn Parry (gweler cyfieithiad o'r geiriau Lladin yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, ii, 287). Gan mai o 1595 hyd 1601 yr oedd [Morgan](#) yn Llandaf gellir tybio mai dyna'r pryd y gwnaeth Parry ei waith.

## Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

W. Ll. Davies, 'Welsh Metrical Versions of the Psalms' yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, ii, 276-301, a'r ffynonellau a enwir yno

Bradney, 'George Parry,' *ibid.*, iii, 13-16

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [James Rhys Parry \(Eos Eyas\)](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13129298](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

